7 Gorffennaf 2016

| | |
|---|---|
| **Teitl y papur:** | **Adroddiad Blynyddol ynghylch Lles, Iechyd a Diogelwch – 2015/16** |
| **Cyfeirnod y papur:** | **NRW B B 41.16** |
| **Paratowyd y papur gan:** | **Ashleigh Dunn** |
| **Cyflwynwyd y papur gan:** | **Emyr Roberts** |

| | |
|---|---|
| **Diben y papur:** | **Penderfyniad / Craffu / Datblygu / Gwybodaeth** |
| **Argymhelliad:** | Gofynnir i'r Bwrdd gymeradwyo'r Adroddiad Blynyddol ynghylch Lles, Iechyd a Diogelwch ar gyfer 15/16. |

| | |
|---|---|
| **Effaith:** Dylid nodi na fydd pob pennawd efallai'n berthnasol i'r pwnc | Sut y mae'r cynigion sydd yn y papur hwn yn helpu Cyfoeth Naturiol Cymru i gyflawni egwyddorion y Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol o ran:<br><br>**Ystyried yr <u>hirdymor</u>:**<br><br>**Gweithredu mewn modd <u>integredig</u>:**<br><br>**Cynnwys <u>amrywiaeth</u> o'r boblogaeth:**<br><br>**Gweithio mewn modd <u>cydweithredol</u>:**<br><br>**<u>Atal</u> problemau rhag digwydd:**<br>Mae Map Ffordd Cyfoeth Naturiol Cymru yn disgrifio sut y mae ein llwyddiant yn dibynnu ar y modd yr ydym yn cydweithio i greu Cymru well. Mae'r map ffordd yn egluro ein gweledigaeth a'r hyn y byddwn yn ei wneud i'w gwireddu. Drwy'r gwaith yr ydym yn ei wneud a'r modd yr ydym yn ei gyflawni, bydd Cyfoeth Naturiol Cymru yn cyfrannu'n gadarnhaol at wella lles, iechyd a diogelwch ein staff a'n cwsmeriaid ar draws Cymru. Mae ein gwerthoedd yn golygu y byddwn yn gyfrifol ac yn atebol am ein gweithredoedd ac y byddwn yn gweithredu i'n cadw ein hunain a chadw pobl eraill yn ddiogel ac yn iach. Mae'r Adroddiad ynghylch Lles, Iechyd a Diogelwch ar gyfer 2015/16 yn sicrhau ein bod yn diwallu anghenion y busnes drwy'r camau gweithredu er mwyn cyflawni'r Cynllun Corfforaethol. |

## Mater

1. Dyma'r trydydd crynodeb blynyddol o'n perfformiad o ran lles, iechyd a diogelwch ar gyfer Cyfoeth Naturiol Cymru. Mae'r adroddiad yn rhoi trosolwg o'r modd yr ydym wedi rheoli lles, iechyd a diogelwch drwy gydol 2015/16.

## Cefndir

2. Rydym yn gwella lles, iechyd a diogelwch ein staff a'n cwsmeriaid ar draws Cymru drwy'r gwaith yr ydym yn ei wneud a'r modd yr ydym yn ei gyflawni. Rydym yn annog pawb i gymryd cyfrifoldeb personol am les, iechyd a diogelwch yn y gwaith, ac mae rheolwyr llinell yn darparu cymorth i sicrhau bod hynny'n digwydd.

3. Cafodd ein Strategaeth gyntaf ynghylch Lles, Iechyd a Diogelwch ei chymeradwyo gan Fwrdd Cyfoeth Naturiol Cymru ym mis Mawrth 2015, ynghyd â Fframwaith Llywodraethu a Pholisi diwygiedig. Roedd y gyfres hon o ddogfennau yn darparu'r fframwaith a ddefnyddir gan y sefydliad cyfan i wella ein dull o ymdrin â lles, iechyd a diogelwch. Cafodd y Strategaeth ei llunio ar sail canfyddiadau ein harolwg cyntaf o les, iechyd a diogelwch (a gynhaliwyd gan ddefnyddio adnodd y Labordy Iechyd a Diogelwch ar gyfer asesu hinsawdd o ran diogelwch) ym mis Rhagfyr 2014. Roedd yr arolwg yn asesu agweddau a chanfyddiadau ein staff ynghylch lles, iechyd a diogelwch, a dangosodd fod ein perfformiad presennol yn ganolig o gymharu â meincnodau allanol.

4. Yn ystod 2015/16, rydym wedi dechrau cyflawni ein Strategaeth drwy weithredu cynllun gwella tair blynedd. Mae'r pecyn cyffredinol hwn yn ei gwneud yn bosibl i ni gyflawni ein huchelgais, sef sicrhau sgorau arolwg tebyg i'r sgorau a gaiff sefydliad sy'n perfformio'n arbennig o dda.

## Asesiad

5. Mae ein systemau gwybodaeth ar gyfer lles, iechyd a diogelwch wedi'u gwella. Mae staff erbyn hyn yn defnyddio AssessNET i adrodd ynghylch damweiniau a digwyddiadau fu bron â digwydd. Mae'r cam cadarnhaol hwn yn dileu'r angen i ddibynnu ar systemau'r cyrff rhagflaenol, ac mae'n crynhoi gwybodaeth a gwersi gwerthfawr er mwyn gwella ein perfformiad o ran iechyd a diogelwch.

6. Rydym wedi adrodd ynghylch nifer o ddamweiniau difrifol a digwyddiadau fu bron â digwydd, gan gynnwys marwolaeth contractwr, yn ystod 2015-16. Roedd llawer o'r damweiniau hynny a'r digwyddiadau hynny fu bron â digwydd yn gysylltiedig â'n gweithgareddau cynaeafu mewn coedwigoedd, sy'n faes y mae angen i ni barhau i ganolbwyntio arno er mwyn sicrhau'r gwelliant pellach y mae angen i ni ei weld o ran perfformiad.

7. Mae gweithwyr sy'n gweithio ar eu pen eu hunain ac o bell wedi cael eu trosglwyddo erbyn hyn i StaffCall, sy'n sicrhau bod eu symudiadau'n cael eu

cofnodi a bod modd gwybod ble y maent pe bai damwain neu argyfwng yn digwydd.

8. Mae'r arfer o ddefnyddio MyNRW i adrodd ynghylch absenoldeb oherwydd salwch wedi gwella ein dealltwriaeth o gyfraddau absenoldeb ac achosion absenoldeb yn Cyfoeth Naturiol Cymru.

9. Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf cafodd rhagor o bolisïau ynghylch lles ac iechyd galwedigaethol eu cyflwyno gennym, a chafodd trefniadau Cyfoeth Naturiol Cymru ar gyfer iechyd galwedigaethol a darparu cymorth i weithwyr eu cyhoeddi gennym. Mae gwaith ymgysylltu â staff drwy'r Pwyllgor Lles, Iechyd a Diogelwch Cenedlaethol a'r fforymau rhanbarthol yn dod yn fwy effeithiol wrth i ni rannu arfer da a gwersi. Gwnaethom orffen hyfforddi bron hanner cant o staff sydd bellach â'r sgiliau i ddarparu help cychwynnol i staff eraill sydd â phroblemau iechyd meddwl megis iselder ysbryd, gorbryder a seicosis. Maent yn weithwyr sydd wedi gwirfoddoli i ymgymryd â'r rôl ac maent yn ddarparwyr ardystiedig cymorth cyntaf iechyd meddwl.

10. Rydym wedi cychwyn ar raglen gynhwysfawr o hyfforddiant ynghylch iechyd a diogelwch i staff ar draws Cyfoeth Naturiol Cymru, sy'n cyrraedd safon y Sefydliad Diogelwch ac Iechyd Galwedigaethol. Bydd hynny'n helpu i sicrhau bod iechyd a diogelwch yn cael eu rheoli i safon uwch a chyson ar draws timau yn Cyfoeth Naturiol Cymru.

**Argymhellion**

11. Gofynnir i'r Bwrdd gymeradwyo'r Adroddiad Blynyddol ynghylch Lles, Iechyd a Diogelwch ar gyfer 15/16.

**Prif risgiau**

12. Rydym yn parhau i reoli risgiau o ran iechyd a diogelwch. Wrth edrych ymlaen bydd angen i ni gynnal ein diwylliant cryf ein hunain o fonitro iechyd a diogelwch a dysgu am iechyd a diogelwch, ond bydd angen hefyd i ni ddatblygu'r diwylliant hwnnw ymhellach. Mae hynny'n elfen allweddol o'n strategaeth wrth i ni symud ymlaen.

13. Byddwn yn defnyddio'r wybodaeth a gasglwyd a'r gwersi a ddysgwyd yn ystod y flwyddyn ddiwethaf wrth barhau i gyflawni ein Cynllun Gwella tair blynedd ar gyfer Lles, Iechyd a Diogelwch.

**Goblygiadau ariannol**

14. Rydym yn sylweddoli bod camgymeriadau'n ymwneud â lles, iechyd a diogelwch yn arwain at oblygiadau ariannol sylweddol. Rydym yn parhau i gyflwyno systemau newydd er mwyn sicrhau bod ein risgiau o ran lles, iechyd a diogelwch yn cael eu rheoli'n well a bod ein costau felly'n lleihau. Yn ogystal â diogelu ein staff a'r sawl sy'n gweithio ar yr ystâd a reolir gennym ac sy'n ei defnyddio, gallai goblygiadau ariannol sylweddol godi o fethu â gweithredu system gadarn ar gyfer lles, iechyd a diogelwch.

## Asesiad o’r effaith ar gydraddoldeb

15. Amherthnasol